



## Modiwl Caffael

### Strwythur y Pecyn Cymorth

Bwriedir i Becyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy Ynni Lleol gael ei ddefnyddio fel ffynhonnell gyfeirio gan Grwpiau Cymunedol o bob math. Mae'r modiwl hwn yn un rhan o gyfres o ddogfennau sy'n ffurfio Pecyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy Ynni Lleol a bwriedir iddo gwmpasu prosiectau o bob maint, er y gall graddau a chymhlethdod prosiectau aml-MW ofyn am waith gwerthuso manylach na phrosiectau llai. Ymhlith y modiwlau eraill a all fod o ddiddordeb arbennig i'r rheini sy'n darllen y modiwl hwn mae'r canlynol.

- sefydlu grŵp cymunedol
- cyllid prosiect
- diogelu'r safle
- cynllunio
- cysylltu â'r grid
- y Tariff Cyflenwi Trydan

Mae'r pecyn cymorth hwn yn adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd ar gyfer Cynllun Ynni Adnewyddadwy a Chymunedol Llywodraeth yr Alban (CARES) gan Local Energy Scotland a Ricardo-AEA.

### Strwythur y Modiwl

Mae'r modiwl hwn wedi'i strwythuro'n bedair rhan gan weithredu fel canllaw a dogfen gyfeirio i Grwpiau Cymunedol wrth ddatblygu prosiectau ynni dŵr yng Nghymru.

#### **Cyd-destun caffael**

Trosolwg o waith caffael mewn prosiect ynni adnewyddadwy.

#### **Caffael - y prif faterion**

Cyflwyniad byr i'r prif faterion y gellir eu hwynebu wrth gaffael cyfarpar a gwasanaethau.

#### **Y broses gaffael**

Cipolwg mwy manwl ar bob cam o'r broses o gaffael cyfarpar a gwasanaethau gan gynnwys datblygu a chyflwyno Gwahoddiadau i dendro.

#### **Rhagor o wybodaeth**

Dolenni, diffiniadau a chyfeiriadau priodol at wybodaeth arall, wedi'u dwyn ynghyd er hwylustod.

## Cyd-destun caffael

Drwy gydol eich prosiect, bydd angen i chi gaffael nwyddau a gwasanaethau. Yn dibynnu ar faint a natur y prosiect, gall hyn gynnwys gwasanaethau'r canlynol:

- ymgynghorwyr i helpu i baratoi caniatâd cynllunio, rheoli prosiect, gweithgareddau dylunio manwl;
- gwasanaethau proffesiynol fel cyfrifwyr a chyfreithwyr;
- contractwyr peirianeg sifil;
- contractwyr peirianeg drydanol;
- contractwyr gwresogi;
- contractwyr trafndiaeth.

Mae hyn ar ben y gwaith o gaffael y caledwedd sydd ei angen arnoch ar gyfer eich prosiect.

Er y gall y rhan fwyaf o'r broses hon fod yn weddol syml, mae rhai meysydd lle mae'n rhaid i'ch trywydd fod yn glir, ble y dewch o hyd i'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch a faint o reolaeth yr hoffech ei chael dros y broses.

Er enghraifft, mae'n bosibl defnyddio gwasanaethau rheolwr prosiect dynodedig a all gyflawni'r broses ddatblygu gyfan i chi, gan gynnwys pob gweithgaredd caffael. Ar gyfer rhai cynlluniau, efallai y bydd hyn yn opsiwn da oherwydd gall y gost o gyflogi'r rheolwr prosiect arbed arian mewn rhannau eraill o'r broses ddatblygu ac arwain at lai o risg i'ch grŵp neu'ch busnes. Ar y llaw arall, efallai y byddwch o'r farn bod gennych ddigon o alluedd yn eich sefydliad i reoli'r broses o gyflawni'r prosiect a'r prosesau caffael gofynnol.

Mae'r modiwl hwn yn tybio y byddwch yn cyflawni'r broses gaffael eich hun.

## Caffael - y prif faterion

### Sut mae dod o hyd i'r pethau a'r bobl sydd eu hangen arnaf?

Gall hyn fod yn her os nad ydych wedi caffael gwasanaethau tebyg o'r blaen, yn enwedig gan y byddwch yn chwilio am nwyddau a gwasanaethau arbenigol, ac am gaffael yr ateb mwyaf cost-effeithlon. Fodd bynnag, mae'r nwyddau a'r gwasanaethau hyn wedi'u caffael gan grwpiau cymunedol eraill a fydd yn fwy na pharod i rannu'r hyn maent yn ei wybod.

O'r cychwyn, mae'n bwysig cydnabod ei bod yn debygol y bydd yn rhaid i gymunedau ddilyn canllawiau caffael y Llywodraeth wrth gael geirdaon a cheisio tendr cystadleuol er mwyn cael grantiau. Fel rheol bydd angen o leiaf dri dyfynbris, ond gall fod amodau llymach ar gyfer grantiau uwch. Os bydd angen gwasanaethau arbenigol arnoch, fel cysylltiad trydanol, adeiladu sylfaen tyrbîn gwynt neu adeiladu ffrâm ar gyfer celloedd PV solar, bydd argymhellion gan grwpiau tebyg eraill yn helpu i nodi cyflenwyr cymwysedig addas.

Ar gyfer gwasanaethau cyffredinol, fel gwaith adeiladu, plymio, neu wasanaethau cyfreithiol a chyfrifyddu, efallai y bydd modd defnyddio cyflenwyr lleol a chael geirdaon lleol.

Wrth gaffael gwasanaethau cyfreithiol a chyfrifyddu, mae'n bwysig sicrhau bod gan y cyflenwyr brofiad o ddarparu gwasanaethau tebyg i grwpiau eraill. Gall benthycwyr fod yn benodol iawn am y darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chyfrifyddu y byddant yn disgwyl i chi eu defnyddio.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n syniad da rhannu eich anghenion yn nwyddau a gwasanaethau 'cyffredinol' ac 'arbenigol'. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd llawer o'r pethau sydd eu hangen arnoch i gyflawni prosiect ynni dŵr yn arbenigol iawn, ac eithrio gweithgareddau cysylltiadau grid nad ydynt yn ddadleuol, creu ffyrdd dros dro a'r rhan fwyaf o faterion cyllid, a gynigir gan nifer o ddarparwyr. Ar y llaw arall, bydd y rhan fwyaf o'r gwaith plymio ar gyfer gosod boeler biomas yr un peth â boeleri sy'n defnyddio unrhyw danwydd. Yr

unig feysydd lle bydd angen mewnbwn arbenigol fwy na thebyg fydd gosod y porthiant tanwydd/boeler a'r botwm rheoli.

Mae hefyd yn bwysig bod gennych hyder yn eich cyflenwr. Gall hyn fod yn anodd, yn enwedig am na fyddwch fwy na thebyg wedi ymwneud â phrosiect o'r fath o'r blaen. Bydd siarad â sefydliadau sy'n debyg i'ch un chi ynglŷn â sut y gwnaethant ddatblygu eu prosiect yn eich helpu i gael argymhellion yn seiliedig ar eu profiad. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod y cyflenwyr rydych yn eu dewis wedi cyflawni neu gyflenwi prosiectau tebyg i'ch un chi a'u bod yn gallu darparu astudiaethau achos, geirdaon a phrawf cymhwysedd/achrediad perthnasol.

Os bydd angen gwasanaethau neu gyfarpar arbenigol arnoch, dylech bob amser geisio tendr cystadleuol, yn ddelfrydol gan o leiaf dri chyflenwr posibl. Heblaw am y tendrau mwyaf syml, mae'n debygol y bydd eich gofynion a'r ffordd y'u bodlonir yn wahanol. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi gytuno ar ddull o wneud cymariaethau uniongyrchol er mwyn nodi'r gwerth gorau a gynigir gan bob un. Felly, bydd y ffordd y nodwch eich gofynion yn bwysig.

O'r cychwyn, bydd hefyd angen i chi fod yn glir o ran pwy fydd yn dyfarnu'r tendrau a gewch a sut y byddant yn cynnal y broses asesu.

### **Caffael gwasanaeth ymgynghori a gwasanaethau tebyg**

Fel rheol, byddai un ymgynghorydd yn cael ei gyflogi i helpu gydag agwedd benodol ar brosiect. Efallai y bydd angen ymgynghorwyr gwahanol i gwmpasu gwahanol agweddau ar y gwaith.

Gall ymgynghorwyr fod yn arbenigwyr annibynnol, hunangyflogedig; aelod o grŵp bach o arbenigwyr pwnc-benodol mewn cwmni arbenigol; neu'n rhan o bractis amlddisgyblaethol mwy o faint. Ar y cyfan, mae ymgynghorwyr annibynnol yn codi llai na phractisau mawr. Fodd bynnag, yr hyn i'w ystyried yma yw canlyniadau delio ag ymgynghorwyr ar wahân sy'n darparu gwasanaethau i chi. Er enghraifft, gall eich cais cynllunio ofyn am nifer o fewnbynnau arbenigol ar wahân. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i'r rhain gael eu cydgysylltu ac efallai'n wir y bydd yr awdurdod cynllunio yn gofyn am un adroddiad sy'n cyfuno'r holl fewnbynnau hyn. Mae'n rhaid i chi wneud y gwaith hwn neu ei roi ar gontract i rywun arall. Mae ymgynghoriaeth amlddisgyblaethol yn debygol o fod yn gallu cynhyrchu'r mewnbwn cyfunol gofynnol ac efallai y bydd yn lleihau'r risg o wrthod caniatâd cynllunio am resymau technegol. Efallai y bydd hefyd yn cynyddu gwerth am arian cyffredinol y gwasanaeth.

Felly, wrth gaffael gwasanaethau ymgynghorydd, mae'n bwysig bod yn glir am y canlyniad sydd ei angen arnoch a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith. Mae hefyd yn arfer da gweithio ar sail ffi sefydlog fel eich bod yn gwybod beth yw cost cyflawni'r canlyniad a ddymunir o'r cychwyn ac mai'r ymgynghorydd sy'n gyfrifol am unrhyw gostau uwchlaw hynny.

Peth arall i holi amdano wrth gaffael gwasanaethau ymgynghorydd yw ei lefel o yswiriant indemniad proffesiynol. Tra dylai fod gan bob ymgynghorydd lefel dda o yswiriant o'r fath, mae hyn yn hynod bwysig os yw'r ymgynghorydd yn gwneud unrhyw waith dylunio peirianyddol. Y rheswm dros hyn yw, os bydd y dyluniad yn ddiffygiol mewn unrhyw ffordd, gan arwain at golli incwm cynhyrchu, costau ailadeiladu neu fethiant ffisegol sy'n arwain at rwymedigaethau trydydd parti, ac ati byddwch am adennill eich colledion. Diben yswiriant indemniad proffesiynol ymgynghorydd yw ei alluogi i wneud y taliadau hyn a all fod yn £1 filiwn neu fwy, hyd yn oed ar gyfer prosiect cymunedol. Ar gyfer disgyblaethau nad ydynt yn rhai peirianyddol, dylech chwilio am yswiriant sydd o leiaf ddeg gwaith gwerth y ffi a delir. Yn achos ymgynghorwyr peirianyddol, dylai fod ganddynt yswiriant sydd dros £1 filiwn, ond dylai fod yn fwy ar gyfer prosiectau mwy.

## **Dewis ymgynghorydd**

Fel y nodwyd eisoes, mae argymhelliad yn sylfaen da i ddewis ymgynghorydd, ond mae'n dal yn syniad da i chwilio am dendr cystadleuol.

Lle nad oes modd cael argymhelliad, mae'n bosibl cael gwybodaeth o ffynonellau eraill. Er enghraifft, mae gan awdurdodau lleol wybodaeth a dogfennaeth lawn ar geisiadau cynllunio llwyddiannus (ac aflwyddiannus). Fel rheol, caiff y dogfennau hyn eu paratoi gan ymgynghorwyr a gellir eu defnyddio i nodi ymgynghorwyr â phrofiad lleol o gyflawni canlyniadau cynllunio llwyddiannus ar gyfer prosiectau tebyg.

Weithiau, gall cyflenwyr technoleg gyflawni rôl ymgynghorydd neu gallant roi gwybodaeth gyswllt ar gyfer ymgynghorwyr maent wedi gweithio gyda hwy. Yn ogystal, gall rhai sefydliadau proffesiynol ddarparu rhestr o aelodau. Hefyd, ceir cronfeydd data sy'n cynnwys manylion ymgynghorwyr, yn aml ar y cyd â'r sefydliadau proffesiynol. Gweler yr adran Rhagor o Wybodaeth am restr o gronfeydd data.

## **Caffael cyfarpar**

Mewn sawl ffordd, mae hyn yn broses symlach. Unwaith eto, bydd prosiectau eraill sy'n debyg i'ch un chi yn nodi darpar gyflenwyr technoleg ac mae cryn dipyn o wybodaeth ar gael gan y cymdeithasau masnach perthnasol. Gall y Gymdeithas Ynni Adnewyddadwy roi dolenni i'r rhain i gyd; pan fyddwch wedi cyrraedd y cam hwn ar eich prosiect dylech fynd i wefan y Gymdeithas Ynni Adnewyddadwy a restrir yn yr adran Rhagor o Wybodaeth.

Mae'r broses gaffael fel y'i disgrifir uchod, gyda'r opsiwn i chwilio am dendrwy yn erbyn manyleb fanwl neu 'fanyleb allbynnau'. Un dull y gallech ei ddefnyddio yw ceisio dyfynbrisiau cychwynnol gan ystod eang o gyflenwyr yn y lle cyntaf. Gall hyn fod o fudd mewn dwy ffordd fawr. Yn gyntaf, bydd yn eich helpu gyda'ch arfarniad ariannol lefel uchel cychwynnol. Yn ail, bydd yn nodi'r darpar gyflenwyr hynny sy'n ymddangos yn barod i helpu a'r rhai sy'n llai parod i ymgysylltu a chefnogi eich prosiect. Ar y cam hwn, gallwch ddewis nifer lai o ddarpar gyflenwyr rydych yn barod i weithio gyda hwy, a all yn y pen draw gael eu gwahodd i roi dyfynbris cystadleuol llawn.

Fel gydag unrhyw gyfarpar a brynir, mae'n bwysig deall beth a gaiff ei gynnwys a'i hepgor o'r dyfynbris a bod pob dyfynbris, i'r graddau y bo modd, yn seiliedig ar yr un peth. Er enghraifft, cynnwys neu hepgor gwasanaethau gosod, natur a graddau gwarantau, a chymorth comisiynu ac ôl-gomisiynu. Dylid hefyd ystyried cost gwaith cynnal a chadw hirdymor. Ar y cam hwn, rhaid i hanes blaenorol a hirhoedledd eich cyflenwr gael eu hystyried gan fod argaeledd hirdymor cymorth a darnau ychwanegol yn bwysig.

Mae'n bwysig cytuno pwy fydd yn gyfrifol am ddosbarthu cyfarpar i'r safle (y gweithgynhyrchwr neu'r prynwr) a sut a phryd y gwneir hyn. Yn achos tyrbinau gwynt, cwmpeisir y pwyntiau hyn yn y Cytundeb Cyflenwi Tyrbinau. Materion eraill i'w hystyried cyn dod yn gyfrifol am y cyfarpar yw gwarant ar berfformiad ac argaeledd a sicrhau bod y warant yn cynnwys manylion iawndal am danberfformio.

Gofynnwch i'ch darpar ddarparwr cyllid pa wybodaeth benodol sydd ei hangen gan y cyflenwr a natur y warant cyflenwi. Er enghraifft, yn achos cyflenwyr technoleg bach neu newydd, gall fod angen yswiriant rhag methiant technegol a rhwymedigaethau wrth gefn, fel colli enillion.

## **Y broses gaffael**

### **Cam 1: Nodi manylebau**

Yn gyffredinol, gellir nodi manylebau mewn dwy ffordd.

- Byddwch mor fanwl â phosibl yn eich gofynion. Gallech ofyn i gyflenwr paneli PV roi dyfynbris am nifer y paneli rydych yn amcangyfrif y bydd eu hangen arnoch.

- Disgrifiwch y canlyniad rydych am ei weld. Gallech ofyn i'r cyflenwr roi dyfynbris sy'n sicrhau'r enillion mwyaf i chi o'r gwaith gosod ac sy'n seiliedig ar yr arwyneb sydd ar gael i osod y paneli, gogwydd ac ati.

Bydd y dull olaf hwn yn galluogi'r cyflenwr i ddiffinio'r panel gorau ar gyfer y lleoliad er mwyn sicrhau'r enillion mwyaf yn hytrach na gofyn i chi benderfynu.

Mae'r fath 'fanyleb allbynnau' yn goresgyn y broblem lle gallech anghofio rhywbeth efallai. Mae hefyd yn gofyn i'r cyflenwr nodi'n fanwl sut i gyflawni'r canlyniad gorau o'ch prosiect.

Waeth pa ddull a ddefnyddir, mae'n bwysig gofyn i'r costau sy'n rhan o unrhyw ymateb i dendr gael eu dadansoddi'n llawn. Bydd hyn yn eich galluogi i gymharu ymatebion a nodi meysydd lle gallai costau fod yn is. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y bydd unrhyw ddyfynbris wedi'i baratoi ar sail cyflawni'r holl waith a restrir. Felly, efallai na fydd cost eitemau unigol yr un peth os cânt eu cyflenwi'n 'unigol' neu, os tynnir eitem o'r tendr, yna efallai na fydd y gostyngiad yn y pris cyffredinol yn cyfateb i'r eitem honno.

## **Cam 2: Llunio gwahoddiad i dendro**

Fel y disgrifir uchod, mae sawl mater penodol i brosiect i'w hystyried wrth gaffael cyfarpar a gwasanaethau ar gyfer prosiect. Felly, ni ddylid defnyddio templed gwahoddiad i dendro safonol ar gyfer yr ymarfer hwn. Ceir rhai gwahoddiadau i dendro enghreifftiol a thempled (gweler yr adran Rhagor o Wybodaeth) ond nid ydynt yn debygol o gyfrif am bob math o brosiect ac amrywiad. Felly, y sawl sy'n defnyddio'r gwahoddiadau i dendro sy'n gyfrifol am sicrhau bod y templed yn gywir ac yn cynrychioli'r prosiect.

Mae'r rhain yn cwmpasu'r gwasanaethau y gallwch eu caffael gan ddefnyddio benthyciadau cyfalaf a grantiau cyfalaf. Yn eu plith mae astudiaethau cyn dichonoldeb ac astudiaethau dichonoldeb manwl.

## **Cam 3: Cyhoeddi Gwahoddiadau i Dendro**

Pan gyhoeddir gwahoddiad i dendro, mae'n bwysig ystyried y pethau canlynol.

### ***Sawl darpar gyflenwr y dylid eu gwahodd i dendro?***

Mae'n arfer da gwahodd o leiaf dri i dendro. Os byddwch yn gwahodd mwy, rhaid i chi bwysu a mesur budd hyn a'r gwaith ychwanegol i chi wrth eu hasesu. Mae perygl hefyd, os bydd gormod o gystadleuaeth o ran nifer, y bydd rhai darpar gyflenwyr yn dewis peidio â thendro.

Os nad ydych yn gyfarwydd â sefydliadau a all ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnoch, yna gallwch gyhoeddi eich gwahoddiad i dendro ar nifer o wefannau gwahanol a chynnig y cyfle i amrywiaeth o gynigwyr; rhoddir manylion nifer o enghreifftiau yn yr adran Rhagor o Wybodaeth.

### ***Amserlenni***

Rhaid i'r amserlen a bennir gennych ar gyfer eich gwahoddiad i dendro fod yn realistig o safbwynt y cyflenwr. Os mai dim ond amser byr a ganiatewch i ymateb, gall yr ymatebion gael eu rhuthro a bod yn anghyflawn neu efallai y bydd darpar gyflenwyr hyd yn oed yn dewis peidio â gwneud o gwbl. O ganlyniad, dylech gynllunio ymhell ymlaen llaw pan fydd angen ymateb arnoch a rhoi hyd at fis i ymateb i'ch darpar ymgynghorydd neu gyflenwr. Efallai y bydd angen rhoi hyd at ddeufis os yw'r gwahoddiad i dendro ar gyfer gweithgaredd mawr fel dyluniad manwl neu lle mae angen is-gontractau neu gydrannau a rhaid iddynt gael eu costio gan eich darpar gyflenwr.

Mae angen i'ch grŵp ganiatáu amser i adolygu'r cynigion. Gall y broses hon gymryd sawl diwrnod yn dibynnu ar faint o gynigion sydd wedi dod i law. Os bydd angen gwneud penderfyniad yng nghyfarfod bwrdd y grŵp, dylid ei amserlennu fel rhan o raglen gyffredinol y prosiect.

## **Llywodraethu**

Yn eich gwahoddiad i dendro, mae'n bwysig egluro pwy ydych, rhoi rhywfaint o gefndir i'ch prosiect ac egluro pam eich bod yn anfon eich gwahoddiad i dendro i'r darpar gyflenwr. Dylech roi manylion cyswllt (e.e. rhif ffôn a chyfeiriad e-bost) un unigolyn yn eich sefydliad a all ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r gwahoddiad i dendro. Dylech hefyd nodi'n glir at bwy y dylid dychwelyd y gwahoddiad i dendro a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud hynny (h.y. dyddiad ac amser).

## **Byddwch yn glir am yr hyn rydych ei eisiau**

Fel y trafodwyd uchod, gellir tendro mewn dwy ffordd yn gyffredinol. Un ffordd yw bod yn hynod benodol am yr hyn rydych ei eisiau a'r llall yw disgrifio'r canlyniad rydych ei eisiau. Waeth pa dull a ddefnyddir gennych, rhaid i chi fod yn glir am yr hyn rydych yn gofyn i'r darpar gyflenwr roi dyfynbris ar ei gyfer. Er enghraifft, efallai y bydd gennych fanyleb fanwl ar gyfer tyrbinau gwynt rydych am gael dyfynbris i'w hadeiladu. Yn yr achos hwn, gallwch ddarparu'r fanyleb a'r dyluniad, manylion y lleoliad, erbyn pryd mae angen cwblhau'r gwaith, manylion unrhyw gyfyngiadau mynediad a'ch dewis amserlen dalu i gyd-fynd â'ch benthyciad. Ar y llaw arall, gallech fod yn gofyn am gymorth gyda chais cynllunio. Os felly, gallech ofyn i'r cyflenwr gysylltu â'r swyddog cynllunio er mwyn cadarnhau pa wybodaeth sydd ei hangen ac yna roi'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn cael caniatâd cynllunio.

Mater arall yw a fydd angen i'ch cyflenwr roi unrhyw wybodaeth i chi yn ystod y prosiect. Er enghraifft, gyda chais cynllunio, efallai y byddwch am gael adroddiad wythnosol ar hynt y gwaith oherwydd gall hyn ddylanwadu ar hyd a chost y gwaith. Os felly, rhaid i chi nodi yn eich gwahoddiad i dendro pa mor aml yr hoffech gael adroddiadau, sut y dylid eu cyflwyno (ar lafar, e-bost, adroddiad ysgrifenedig) ac at bwy y dylid eu hanfon. Cofiwch y byddwch fwy na thebyg yn talu am gymorth fesul awr felly po fwyaf y gofynnir amdano, y mwyaf y byddwch yn ei dalu. Os hoffech i gyflwyniad terfynol gael ei wneud i fwrdd y grŵp neu gyfarfod cymunedol, rhaid nodi hyn.

Os oes gennych derfyn amser i'r cyflenwr ddechrau a/neu orffen y gwaith, yna rhaid gwneud hyn yn glir yn eich gwahoddiad i dendro.

Mae hefyd yn arferol i chi nodi yn eich gwahoddiad i dendro na fyddwch yn talu'r gost o baratoi'r gwahoddiad i dendro ac nad yw'n ofynnol i chi dderbyn unrhyw ddyfynbris.

## **Materion ariannol**

Os mai eich nod, drwy gynnig eich gwahoddiad i dendro, yw cael costau 'gwirioneddol' yna mae'n werth osgoi rhoi cyllideb ddangosol ynddo. Fodd bynnag, byddwch yn barod i'ch darpar gyflenwr bwysu arnoch am ffigur. Ar y llaw arall, gallech bennu terfyn ariannol yn eich gwahoddiad i dendro, sy'n cyfateb i'ch amcangyfrifon cost eich hun, neu sydd ychydig islaw hynny. Nodwch yn glir nad proses gystadleuol mohoni.

Rydych hefyd am sicrhau bod modd cymharu pob dyfynbris yn uniongyrchol. Yn yr achos hwn, nodwch yn glir sut yr hoffech i'r costau gael eu dadansoddi ac i ba fanylder. Hefyd, bydd angen i chi nodi'n glir pryd y bydd y taliadau am y gwaith yn ddyledus, a fydd angen blaendal, ac a ddisgwylir taliadau fesul cam ac, os felly, beth sy'n eu sbarduno.

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, yn achos ymgynghorwyr yn arbennig, mae angen i chi sicrhau eich bod yn gofyn am dystiolaeth o'r lefel o yswiriant sydd ganddynt yn y gwahoddiad i dendro.

## **Cam 4: Sgorio cynigion**

O'r cychwyn, mae angen i chi fod yn glir ynghylch sut y byddwch yn penderfynu pa dendr i'w dderbyn a nodi hyn yn glir yn y gwahoddiad i dendro. Os mai cost yw'r prif faen prawf, neu unrhyw fater neu faterion eraill, yna mae angen i chi ddweud wrth y sawl sy'n tendro sut y byddwch yn gwneud y fath ddyfarniad. Os na, gallech, er enghraifft, gael cost gyfalaf isel ar

gyfarpar, ond heb gynnwys unrhyw gyfarpar atodol, mewn ymgais i ennill y cynnig ac yna cynyddir y costau gosod wedyn. Ymhlith y pethau i'w hystyried mae gwarantau, amserlenni cyflenwi, telerau talu, buddiannau lleol (fel swyddi) a hyblygrwydd.

Gall matrices sgorio gael ei ddefnyddio i sgorio'r cynigion yn erbyn elfennau gwahanol. Gellir gwneud hyn er mwyn cyflwyno elfen 'bwysoli' fel bod eitemau allweddol (e.e. cost) yn cael mwy o ddylanwad ar y canlyniad na materion eraill fel amserlen gyflenwi. Drwy wneud hyn, gallai 'cost' gyfateb i 50% o'r pwyntiau sydd ar gael, gallai 'hyblygrwydd' gyfateb i 25%, 'defnyddio lafur lleol' 10% ac ati.

Hefyd, bydd angen i chi bennu terfyn amser ar gyfer gwneud eich penderfyniad.

Unwaith y byddwch wedi gwneud eich dewis, bydd angen i chi hysbysu'r sawl sydd wedi bod yn aflwyddiannus, a all ofyn am adborth ar y rhesymau dros hyn. Felly, rhaid i'ch proses gwneud penderfyniadau fod yn dryloyw, yn enwedig ar gyfer grŵp cymunedol lle mae cydberthnasau lleol yn bwysig.

### **Cam 5: Cadw cofnodion**

Dylai cofnod o'r contractau a gaffaelwyd a'ch cyflenwyr gael ei gynnwys a'i ddiweddarau mewn un gronfa ganolog ddiogel (naill ai'n lleol neu ar-lein), oherwydd bydd angen y wybodaeth hon yn y dyfodol. Bydd yn darparu cofnod o rwymedigaethau'r grŵp a chostau'r prosiect. Bydd y cofnodion hyn yn bwysig pan gynhelir trafodaethau â benthycwyr.

## Rhagor o wybodaeth

### Caffael - y prif faterion

#### Caffael gwasanaeth ymgynghori a gwasanaethau tebyg

- Ceir cronfeydd data sy'n rhoi manylion ymgynghorwyr ac a gynhelir gan sefydliadau fel Skillfair, yn aml ar y cyd â'r sefydliadau proffesiynol. Am restrau o ymgynghorwyr ewch i:
  - Skillfair - [www.skillfair.co.uk/consultantsListing.aspx](http://www.skillfair.co.uk/consultantsListing.aspx)
  - Cyfeiriadur ymgynghorwyr Ynni Free index [http://www.freeindex.co.uk/searchresults.htm?k=energy\\_consultant&l=wales&locid=30556](http://www.freeindex.co.uk/searchresults.htm?k=energy_consultant&l=wales&locid=30556)
  - Mae'n bosibl hidlo cyfeiriadur aelodau'r Gymdeithas Ynni Adnewyddadwy drwy ddewis 'Consultancy' o dan y Sector Busnes <http://www.r-e-a.net/membership/directory>

#### Caffael cyfarpar

- Gall y Gymdeithas Ynni Adnewyddadwy ddarparu dolenni i ddarpar gyflenwyr technoleg. Ewch i [www.r-e-a.net/](http://www.r-e-a.net/)

### Y broses gaffael

#### Cam 1: Nodi manylebau

#### Cam 2: Llunio gwahoddiad i dendro

- Mae Local Energy Scotland wedi creu nifer o wahoddiadau i dendro templed a all gael eu teilwra gennych ar gyfer eich prosiect <http://www.localenergyscotland.org/tenders>
- Mae gan y Low Carbon Hub Wahoddiad i Dendro enghreifftiol <http://www.lowcarbonhub.org/resource/generating-community-energy/>

#### Cam 3: Cyhoeddi Gwahoddiadau i Dendro

Os nad ydych yn gyfarwydd â sefydliadau a all ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnoch, yna gallwch gyhoeddi eich gwahoddiad i dendro ar nifer o wefannau gwahanol, er enghraifft:

- Mae GwerthwchiGymru yn ffynhonnell wybodaeth a phorth caffael sy'n anelu at helpu busnesau i ennill contractau gyda'r sector cyhoeddus <http://www.sell2wales.gov.uk/Default.aspx>
- Mae Tenders Direct yn wasanaeth tanysgrifio ar gyfer contractwyr. Ewch i <http://www.tendersdirect.co.uk/Default.aspx>
- Mae Supply yn rhan o raglen genedlaethol sy'n ymgysylltu â BBaChau ac mae'n borth i gontractau sector cyhoeddus. Ewch i <https://www.supplycontracts.co.uk/>



Comisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yng Nghymru

Lluniwyd gan Ricardo-AEA Ltd gan adeiladu ar waith a gwblhawyd ar gyfer Cynllun Ynni Adnewyddadwy a Chymunedol Llywodraeth yr Alban

© Argraffydd y Frenhines ar gyfer yr Alban 2009, 2010, 2011, 2012

*Diweddarwyd y ddogfen hon ddiwethaf ym mis Mawrth 2015*